## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun ar 22 ain Mawrth 2006 am 09.30 a.m.

## PRESENNOL

Y Cynghorwyr S. Thomas (Cadeirydd) J.R. Bartley, R.E. Barton, J. Butterfield, J. Chamberlain-Jones, J.M. Davies, M.Ll. Davies, G.C. Evans, H.H. Evans, S. Frobisher, M.A. German, D. Hannam, K.N. Hawkins, T.K. Hodgson, N. Hugh-Jones, H. Jones, M.M. Jones, G.M. Kensler, P.W. Owen, N.P. Roberts, D.A.J. Thomas, J. Thompson-Hill, C.H. Williams, R.Ll. Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Datblygiadau, Arweinydd Tîm (Prif Geisiadau), Swyddog Cynnal Hŷn (G. Butler) Swyddog Gweinyddol (Judith Williams) a Bryn Jones (Cyfieithydd)
Sue Broadway (Priffyrdd) yn bresennol hefyd ar gyfer Cais Parc Adwerthu Clwyd.

## DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM EU HABSENOLDEB ODDI WRTH

Y Cynghorwyr E.R. Jones, S.A. Davies, I.M. German, M.A. Webster, a'r Rheolwr Datblygu (Mark Dakeyne)

## 1. MATERION BRYS

Dim

## 2. CEISIADAU AM GANIATÂD DATBLYGU

Cyflwynwyd yr adroddiad (a oedd wedi ei gylchredeg ymlaen llaw) gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn rhestru cynlluniau a gyflwynwyd ac yr oedd gofyn i'r Pwyllgor benderfynu arnynt.

***PENDERFYNWYD*** *BOD*: -

*(a) argymhellion y Swyddogion, fel y'u cynhwyswyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd, yn cael eu cadarnhau a bod caniatâd neu wrthodiad cynllunio yn ôl fel y digwydd, yn cael eu cyhoeddi fel sy'n addas dan y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu a Ganiateir yn Gyffredinol) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal, 1991, Rheoliadau Hysbysebu Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), 1990 i'r datblygiad arfaethedig dan y cynlluniau sy'n dilyn yn amodol ar yr amodau a restrir yn y cynllun a gyflwynwyd:-*

(i) Caniatâd

<u>Rhif y Cais.</u> <u>Disgrifiad a Safle</u>

| | |
|---|---|
| 01/2005/1509/PF | Yn dilyn ystyriaeth i 1 llythyr oddi wrth: R Beedles, Tywysog Bach, Henllan a 23 arall a oedd wedi ei lofnodi.<br>Codi adeilad unllawr i'w ddefnyddio fel lle i gadw bygis.<br>**Clwb Golff Dinbych Coppi Road Dinbych** |
| 16/2005/1483/PR | Manylion annedd arfaethedig a gyflwynwyd yn unol ag amod rhif 1 cod caniatâd cynllunio amlinellol rhif 16/2004/0681/PO.<br>**Tir ger y Ranch House Lon Cae Glas Llanbedr Dyffryn Clwyd Rhuthun** |
| 42/2005/1373/PF | Newid ac ymestyn stabl i greu 1 annedd.<br>**Tir ym Mhlas yn Foel Lower Foel Road Dyserth Rhyl** |
| 45/2006/0021/PF | **Siaradwr Cyhoeddus o blaid: D. Stantiford (Asiant)**<br>Yn dilyn ystyriaeth cywiriad i adroddiad yn ymwneud ag arwynebedd llawr ar gyfer cwsmeriaid, llythyrau ychwanegol oddi wrth: Asiantaeth yr Amgylchedd, Pennaeth Trafnidiaeth ac Isadeiledd, a'r Cynghorydd J. Chamberlain-Jones. Cylchredwyd cynllun ychwanegol yn ogystal.<br>Codi bwyty yn ymgorffori *takeaway* atodol a mannau gwaith cysylltiedig<br>**Tir ym Mharc Adwerthu Clwyd Ffordd y Rhyl Rhuddlan Y Rhyl**<br>Yn amodol ar Amodau Diwygiedig 8, 9, a10<br>Amod Ddiwygiedig 2<br>Parc Adwerthu Clwyd, y Rhyl<br>2. Mewn perthynas â threfniadau draeniad:<br>a) Rhaid i arllwysiadau dŵr budr a dŵr arwyneb gael eu draenio ar wahân o'r lleoliad.<br>b) Ni ddylid caniatáu i unrhyw ddŵr arwyneb ddod i gysylltiad (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) â'r system garthffosiaeth gyhoeddus.<br>c) Ni chaniateir i unrhyw ddraeniad o ddŵr ffo, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, arllwys i'r system garthffosiaeth gyhoeddus.<br>d) Rhaid darparu trap saim addas i rwystro i unrhyw beth sy'n debyg o amharu ar lif cynnwys y garthffos, neu a allai niweidio triniaeth a gwarediad deunydd o'r fath, rhag mynd i mewn i'r system garthffosiaeth gyhoeddus. |

8. Ni chaniateir i ddefnydd o’r adeilad gael ei ddechrau nes bydd y lle cadw beiciau, y lle cadw ysbwriel a threfniadau ar gyfer gwaredu ysbwriel y tu allan i’r adeilad wedi eu cwblhau.
9. Ni chaniateir i unrhyw ddatblygiad gael ei ddechrau hyd nes y bydd caniatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi ei sicrhau i lefel llawr gorffenedig yr adeilad. Bydd y datblygiad yn cael ei gwblhau gan gydymffurfio’n gaeth â’r lefel a gymeradwyir dan yr amod hon.

*Rheswm: Er mwyn lleihau effaith gorlifiad*

10. Ni chaniateir i unrhyw ddatblygiad gael ei ddechrau hyd nes y bydd caniatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi ei sicrhau i fanylion cyswllt i gerddwyr a beicwyr rhwng y safle a’r llwybr troed/seiclo sy’n rhedeg yn gyfochrog â’r A525; a rhaid cwblhau’r cysylltiad yn unol â’r manylion a gymeradwyir dan yr amod hon cyn i’r adeilad ddechrau cael ei ddefnyddio.

*Rheswm: Er mwyn hwyluso cyswllt i gerddwyr a beicwyr rhwng y safle a llwybr yr A525.*

**Nodyn Ychwanegol i’r Ymgeisydd**

Gyda golwg ar amod 10 ac ar faterion diogelwch ar y ffordd fawr mewn perthynas â’r A525, fe’ch cynghorir i gysylltu â’r Swyddog Priffyrdd i drafod modd addas i fynd ynglŷn â chwestiynau yn ymwneud â rheolaeth traffig/cerddwyr/beicwyr ar y cyd â’r datblygiad.

Gofynnodd yr aelodau am i drafodaeth gael ei chynnal gyda’r heddlu ynglŷn â’r posibilrwydd o ostwng y cyfyngiad ar gyflymder ar hyd yr A525 yng nghyffiniau’r parc adwerthu. Bydd yr aelodau lleol yn cael gwybod beth fydd y canlyniad gan Sue Broadway.

**GWRTHODIAD**

23/2005/1403/PC

Parhau i ddefnyddio hen adeilad amaethyddol ar gyfer storio a dosbarthu (cais adolygol).

**Tai Allan ym Mryn Eglur Llanrhaeadr Dinbych**

Newid y rheswm dros wrthod

1) Mae’r ffyrdd sy’n arwain at y safle yn rhai cul, annosbarthedig sy’n is-safonol o ran lled a chyfluniad i fod yn addas ar gyfer deunydd storio a dosbarthu. O gofio maint yr adeilad, byddai’r hyn a arfaethir yn arwain at gynnydd sylweddol yn swm a math y cerbydau a fyddai’n defnyddio’r ffyrdd hyn, gyda pheryglon

ychwanegol o ganlyniad i bob un o ddefnyddwyr y ffyrdd a hynny'n groes i Bolisi TRA 6, maen prawf (vii) of Bolisi GEN 6, ac maen prawf (i) (g) o Bolisi EMP 5 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych a TAN 6 - Datblygiad Gwledig Amaethyddol.

Rhaid cyflwyno'r Rhybudd Gorfodaeth a awdurdodwyd yn flaenorol – 3 mis o gyfnod cydymffurfio.

**GOHIRIWYD AM Y RHESYMAU A RODDWYD**

| | |
|---|---|
| 43/2003/1360/PR | Yn dilyn ystyriaeth i 2 lythyr oddi wrth: Pensaer Cadwraeth; Pensaer Tirlun.<br>Manylion cynllun, ymddangosiad allanol a thirlunio'r siop fwyd a'r orsaf gwerthu petrol a gyflwynwyd yn unol ag Amod Rhif 1 o ganiatâd cynllunio amlinellol Rhif Cyfeirio 43/1997/0910/PO (Materion wrth gefn)<br>**Tir yn y Stryd Fawr Prestatyn**<br>**GOHIRIWYD** gyda chyfarwyddyd i'r Swyddogion gysylltu â'r ymgeiswyr i drafod cynlluniau gwahanol ar gyfer adeilad y siop. Mynegwyd ffafriaeth i fanylion "mwy traddodiadol".<br>(Ataliodd y Cynghorydd C.H. Williams ei bleidlais) |

**3 DATBLYGIAD TAI YNG NGHEFN Y GWRYCH MELIDEN**

Derbyniwyd adroddiad er gwybodaeth

**4 AWDURDODIADAU'R PWYLLGOR GORFODAETH – ADOLYGIAD**

Derbyniwyd adroddiad er gwybodaeth

**5 EITEM O WYBODAETH: GWEFAN SIR DDINBYCH**

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ei adroddiad ar y llwyddiant a brofodd y Wefan Gynllunio mewn arolwg diweddar, gan ennill 18 pwynt allan o 21 posibl.
Cyfeiriodd hefyd at lwyddiant yr Adran yn ystod y chwarter diwethaf mewn perthynas â chyflymder wrth benderfynu ar geisiadau – sef y gorau yng Nghymru.
Mynegodd amryw o'r aelodau eu llongyfarchion i'r staff sydd, meddent, bob amser yn gwrtais ac yn barod i helpu.

**6 RHESTR O GEISIADAU YR YMDRINIWYD Â HWY DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ei adroddiad ysgrifenedig (a oedd wedi ei gylchredeg eisoes) ar geisiadau am Ganiatâd Cynllunio yr oedd ef wedi penderfynu arnynt dan bwerau dirprwyedig rhwng 1af Chwefror a 28ain Chwefror.

***PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad.*

Terfynwyd y cyfarfod am 11.00 am

********